# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

## HYDREF 2018

## CYMRAEG IAITH - UNED 3
## 3000N30-1

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2018. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH - UNED 3**

**HYDREF 2018**

## Adran A (Darllen): 30 marc

**Darn Darllen 1**
**Faint maen nhw'n ei gymryd i ddiflannu?**

**A1**. Enwch **dair** eitem sy'n cymryd canrif neu fwy i ddiflannu. [1]

Unrhyw 3 allan o
- Tuniau
- Brwsh dannedd
- Ffon lolipop
- Potel wydr
- Potel blastig
- Bag plastig
- Gwelltyn yfed

✓ = 1 marc

(Casglu gwybodaeth)

**Darn Darllen 2**
**Pam y dylem ni wrthod defnyddio gwellt plastig?**

**A2.** Pam bydd gwellt plastig ar y ddaear am ganrifoedd? [1]

Gan nad ydyn nhw'n fioddiraddadwy

✓ = 1 marc

(Casglu gwybodaeth)



© WJEC CBAC Cyf.

**Darllen 3**
**Llofruddiaeth y Lli**

**A3.** Pan aeth criw ffilmio *Blue Planet* i ffilmio ar y môr, daethon nhw ar draws llawer o broblemau. Mae pedwar o'r gosodiadau isod yn gywir. Mae un ateb cywir wedi'i roi i chi'n barod. Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â'r **tri** sylw cywir arall. [3]

1 marc yr un (✓ am bob ffaith)

| | |
|---|---|
| Roedd y criw ffilmio yn dod ar draws plastig yn y môr yn rheolaidd. | ✓ |
| Wrth ffilmio, roedden nhw'n gweld offer pysgota, pacedi creision a photeli gwydr yn aml. | |
| Pan fyddai'r criw ffilmio yn gweld darnau o blastig yn y môr, roedden nhw'n eu hanwybyddu. | |
| Gwelon nhw grwban gwalchbig wedi'i ddal gan sach blastig. | ✓ |
| Ar eu taith, gwelon nhw grwban arall gyda gwelltyn yfed plastig yn sownd yn ei drwyn. | |
| Ynysoedd heb lawer o bobl yn byw arnyn nhw oedd â'r llygredd plastig mwyaf ar eu traethau. | ✓ |
| Bu'r criw ffilmio'n ceisio rhyddhau morfil am naw awr oddi ar arfordir Canada. | ✓ |
| Arhosodd y morfil yn dawel drwy'r broses o gael ei ryddhau. | |

Os yw ymgeisydd wedi ticio 4 – cyfrifo faint sy'n gywir a thynnu 1 marc.
Os yw ymgeisydd wedi ticio 5 – dim marc.
(Dehongli gwybodaeth)

**A4.** Pa air yn y paragraff canlynol sy'n golygu "casglu at ei gilydd"? [1]

> "Pan oedden ni'n teithio ar y cwch, os oedden ni'n sylwi ar ddarn o blastig, roedden ni'n stopio ac yn gwneud ein gorau i'w godi, fel y byddai unrhyw un sy'n poeni am ddyfodol ein planed. Ond weithiau roedd ynysoedd o blastig wedi crynhoi fel ei bod yn amhosibl cael gwared ohono i gyd."

Crynhoi
Gellir derbyn y gair wedi ei danlinellu.
✓ = 1 marc

(Dehongli ystyr gair)



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 4**
**Bwrw Bol**

**A5.** Nid yw Gwenan Roberts yn gwneud un o'r canlynol yn y darn darllen. Nodwch pa un drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Rhoi cyfarwyddiadau ☑

(Dehongli)

**A6.** Beth yw neges Gwenan Roberts yn y darn hwn? [3]

- Gall mynd am dro ar hyd ffyrdd neu draethau wneud gwahaniaeth i iechyd a'r amgylchedd.
- Gall pawb wneud gwahaniaeth i'w milltir sgwâr drwy godi sbwriel.
- Petai pawb yn casglu sbwriel unwaith y mis, byddai'r amgylchfyd yn lanach a mwy pleserus.
- Mae'n ceisio ein hannog ni i wneud yr un fath â hithau.
- Mae gormod o sbwriel yn cael ei daflu ar hyd y ffordd.

Rhaid i unrhyw ddyfyniadau gefnogi sylwadau.

**0 marc** Dim ateb/ateb amherthnasol

**1 marc** Trafod neges yr awdur yn fras

**2 farc** Trafod neges yr awdur yn dda

**3 marc** Trafod neges yr awdur yn dda ac yn fanwl

(Dehongli)



© WJEC CBAC Cyf.

**A7.** Sut mae Gwenan Roberts yn llwyddo i gyflwyno ei neges? Cofiwch ddefnyddio tystiolaeth o'r darn darllen i gefnogi eich sylwadau. [6]

**0 marc** Dim ateb/ateb amherthnasol

**1 marc** Ateb byr iawn – ymgais i drafod ambell bwynt yn fras

**2 farc** Ymgais i nodi ambell ddull gan ddyfynnu ac esbonio

**3 marc** Ymdrech eithaf da i drafod technegau a ddefnyddir yn y testun gan gynnwys ambell enghraifft/dyfyniad a dechrau dadansoddi

**4 marc** Trafod technegau yn eithaf da gan gynnwys enghreifftiau/dyfyniadau a dadansoddi'n eithaf da

**5 marc** Trafod technegau yn dda gan gynnwys enghreifftiau/dyfyniadau a dadansoddi'n dda.

**6 marc** Trafod technegau yn ddeallus gan gynnwys enghreifftiau/dyfyniadau a dadansoddi'n hyderus

Gall yr ymgeiswyr sôn am bwyntiau megis:

- Rhestru - "bocsys *McDonalds*, cwpanau *Costa Coffee*, poteli cwrw, tuniau seidr ..."
- Idiom - cael llond bol, fy milltir sgwâr
- Person cyntaf/Cyfarch y darllenwyr
- Iaith lafar dafodieithol (Pen Llŷn/gogleddol)
- Cwestiynau rhethregol
- Agwedd feirniadol (y cyngor, cwmnïau mawr ac archfarchnadoedd)
- Berfenw – llusgo
- Ansoddeiriau – disbwriel
- Cyferbyniad – sach lawn/cornel o sach
- Ebychiad – ew
- Cynnig her ar y diwedd
- Agwedd yr awdur

(Dehongli, dadansoddi a gwerthuso)


✓- nodwedd
t – tystiolaeth
d – dadansoddi



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5**
**Pam Ailgylchu?**

**A8.** Pa ffaith sy'n wir am ba rif? Rhowch linellau clir a thaclus i gysylltu'r ffaith gyda'r rhif cywir. Mae un wedi'i gysylltu eisoes. [2]




Marc am bob 2 ateb cywir.
1 marc – dau ateb cywir
2 farc – pedwar ateb cywir

(Casglu gwybodaeth)

**A9.** Beth sy'n gwneud plastig yn wahanol i sylweddau eraill? [1]

1 marc am nodi

Nid yw'n pydru/mae'n dadelfennu
✓ = 1 marc

(Casglu gwybodaeth)

**A10.** Nodwch **ddwy** ffordd y gall plastig gyrraedd y môr. [2]

- Drwy'r cyrsiau dŵr/nentydd/afonydd
- (Cael ei gludo) drwy ddraeniau stormydd
- (Cael ei gludo) ar yr awel

✓ = 1 marc x 2

Unrhyw 2 allan o'r 3 ateb

(Casglu gwybodaeth)



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 6**
**Datganiad i'r Wasg, Eisteddfod Genedlaethol Cymru**

**A11.** Pa un o'r gosodiadau hyn sy'n gywir? Nodwch drwy roi ✓ yn y golofn briodol. [1]

| | |
|---|---|
| Bydd plastig un-tro wedi'i wahardd yn gyfan gwbl erbyn Eisteddfod 2020. | |
| Bydd yn rhaid i'r ymwelwyr dalu £1 am wydr bob tro y byddan nhw'n archebu diod yn y bar. | |
| Bydd yn rhaid talu am gael defnyddio'r gorsafoedd dŵr o gwmpas y Maes. | |
| Gobaith yr Eisteddfod yw bydd yr ymwelwyr yn gwneud penderfyniadau er lles yr amgylchedd weddill y flwyddyn. | ✓ |

(Dehongli gwybodaeth)

**Darnau Darllen 5 a 6**
**Pam Ailgylchu?**
**Datganiad i'r Wasg, Eisteddfod Genedlaethol Cymru**

**A12.** Mae plastig yn broblem fawr i ni yma yng Nghymru.

**Cyfunwch** y wybodaeth o'r ddau ddarn darllen i ddangos

- pa broblemau sy'n cael eu hachosi gan blastig
- sut gallwn ni fynd ati i daclo'r broblem. [8]



© WJEC CBAC Cyf.

Gellir sôn am bethau fel:

| Darn Darllen 5 | Darn Darllen 6 |
|---|---|
| **Problemau**<br>• Tua 165 miliwn tunnell o lygredd plastig yn y môr heddiw.<br>• Erbyn 2050 mae ecolegwyr yn rhagdybio y bydd mwy o blastig na physgod yn y môr.<br>• Llawer o’r plastig o’n basgedi siopa wedi’i greu i gael ei ddefnyddio unwaith ac i gael ei daflu ar ôl hynny.<br>• Os nad yw plastig yn cael ei daflu mewn modd cyfrifol, mae’n gallu cyrraedd y cyrsiau dŵr (nentydd, afonydd) a chael ei gludo i’r môr ar hyd draeniau stormydd neu ar yr awel.<br>• Plastig yn sylwedd unigryw gan nad yw’n pydru – mae’n dadfeilio yn lle hynny.<br>• Mwy a mwy o blastig yn cronni yn y môr - hynny’n peryglu’r bywyd gwyllt sy’n byw yno.<br>• Nwyddau un-tro (bag plastig/gwelltyn yfed) yw rhai o’r mathau mwyaf cyffredin o blastig sy’n llygru’n moroedd.<br>• Mae ailgylchu plastig yn gallu bod yn destun dryswch, oherwydd bod modd ailgylchu rhai mathau, ond nid mathau eraill.<br><br>**Datrysiadau**<br>• Peidio â phrynu plastig un-tro wrth siopa.<br>• Prynu mathau o blastig mae modd eu defnyddio eto.<br>• Peidio â thaflu potel blastig ar ôl ei defnyddio unwaith yn unig.<br>• Gwahanol ffyrdd o ailgylchu plastig gwahanol – bagiau pwrpasol, archfarchnadoedd, canolfannau ailgylchu. | **Datrysiadau**<br>• Torri i lawr ar y defnydd o blastig yn Eisteddfod Caerdydd 2018.<br>• Gwahardd plastig un-tro o Eisteddfod Dyffryn Conwy 2019.<br>• Eisteddfod yn cefnogi prosiect yr AIF *(Association of Independent Festivals)* sy’n ymgyrchu er mwyn gwahardd plastig un-tro mewn gwyliau ar draws Prydain erbyn 2021.<br>• Gwahardd gwellt plastig ar gyfer diodydd.<br>• Gwahardd y defnydd o wydrau yfed un-tro a chyflwyno gwydrau y gellir eu defnyddio drosodd a throsodd er budd yr amgylchedd.<br>• Ymwelwyr yn talu £1 am y gwydr wrth archebu’r ddiod gyntaf, ac yna’n ei ddychwelyd i’r bar am wydr glân yn rhad ac am ddim am weddill y dydd.<br>• Cynhyrchu cwpanau paned y gellir eu defnyddio eto.<br>• Cynhyrchu poteli dŵr ar gyfer plant.<br>• Dŵr Cymru yn gosod gorsafoedd dŵr yfed rhad ac am ddim o amgylch y Maes.<br>• Annog pobl i feddwl am eu defnydd o blastig drwy gydol y flwyddyn. |

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.

p/d – pryder/datrysiad
d – dehongli
Trafod un darn yn unig – tynnu 1 marc



© WJEC CBAC Cyf.

Dehongli:

Mae difaterwch pobl wedi arwain at sefyllfa argyfyngus heddiw gyda 165 miliwn tunnell o lygredd yn y môr a'r rhagdybiaeth brawychus y gall fod mwy o sbwriel plastig nag o bysgod yno erbyn y flwyddyn 2050.

Ein defnydd ni, fel pobl, o blastig sy'n gyfrifol am yr argyfwng hwn – y plastig un-tro sydd wedi'i lapio am gynnyrch ein nwyddau bwyd a'n diffyg gofal wrth waredu'r plastig hwnnw wedyn. Mae hyn yn broblem oherwydd wrth i'r plastig gael ei gario ymaith i'r môr drwy nentydd, afonydd ac ar yr awel, mae'n achosi i fynyddoedd ohono gronni yn ein moroedd. Mae hyn yn profi mai'r nwyddau plastig un-tro hyn fel gwellt yfed a bagiau plastig sy'n gyfrifol am lawer o'r llygredd hwn.

Felly, sut mae mynd i'r afael â'r broblem? Gallwn ymateb yn unigol drwy fod yn rhagweithiol ac ymdrechu i waredu'n plastig mewn modd cyfrifol e.e. poteli, potiau a thybiau mewn bagiau ailgylchu pwrpasol, ailddefnyddio bagiau siopa plastig yn yr archfarchnadoedd er mwyn osgoi gorfod talu 5c bob tro, a mynd â phlastig caled i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Gallwn ailddefnyddio poteli dŵr yn hytrach na'u taflu ar ôl eu defnyddio unwaith yn unig.

O ganlyniad, gallwn hefyd roi pwysau ar sefydliadau a chwmnïau mawrion i weithredu. Gallant efelychu arweiniad Eisteddfod Genedlaethol Cymru sydd wedi ymrwymo i sicrhau y bydd Eisteddfod 2019 yn Sir Conwy yn ŵyl lle bydd gwaharddiad llwyr ar blastig un-tro. Drwy'r gwaharddiad, mae'r Eisteddfod yn sicrhau cydweithrediad cwmnïau arlwyo drwy wahardd gwellt plastig a chyflwyno gwydrau y gellir eu defnyddio dro ar ôl tro ar ôl talu £1 amdanynt wrth archebu'r ddiod gyntaf.

Gallwn annog plant i gymryd rhan hefyd a chodi eu hymwybyddiaeth o'r bygythiad i'n moroedd. Un ffordd o wneud hyn yw drwy brynu poteli dŵr yn arbennig i blant a'u hannog i'w hail-lenwi mewn ffynhonnau dŵr rhad ac am ddim, fel y rhai a ddarperir gan Dŵr Cymru ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol.

Yn amlwg felly, drwy wneud ein rhan ein hunain, rhoi pwysau ar sefydliadau a chwmnïau mawr ac annog y genhedlaeth nesaf i gymryd cyfrifoldeb, efallai y bydd ymgyrch yr Eisteddfod yn ymestyn o fod yn wythnos ddiblastig i weld pobl yn dod yn ymwybodol o faint o blastig rydym ni'n ei ddefnyddio o un pen y flwyddyn i'r llall.



© WJEC CBAC Cyf.

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.

| | |
|---|---|
| **0 marc** | os na cheir ymdrech i ateb y cwestiwn. |
| **1 marc** | peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o'r ddau destun drwy restru'r problemau a'r datrysiadau yn fras (1-3 pryder/datrysiad) |
| **2 farc** | peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o'r ddau destun drwy restru'r problemau a'r datrysiadau (4-6 pryder/datrysiad) |
| **3 marc** | ymdrech eithaf da i gyfuno gwybodaeth o'r ddau destun wrth restru'r problemau a'r datrysiadau ( 7-9 pryder/datrysiad) |
| **4 marc** | ymdrech eithaf da i gyfuno gwybodaeth o'r ddau destun wrth restru'r problemau a'r datrysiadau a dechrau dehongli'r wybodaeth (10+ pryder/datrysiad) |
| **5 marc** | cyfuno gwybodaeth o'r ddau destun yn dda iawn gyda rhai sylwadau perthnasol wrth gyflwyno pryderon/datrysiadau |
| **6 marc** | cyfuno gwybodaeth o'r ddau destun yn dda iawn gyda sylwadau perthnasol wrth gyflwyno pryderon/datrysiadau |
| **7-8 marc** | cyfuno gwybodaeth o'r ddau destun yn aeddfed gan ddehongli wrth drafod pryderon/datrysiadau |



© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn B1 a B2 (20 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **9-10 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **9-10 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **7-8 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **7-8 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **5-6 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **5-6 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |



© WJEC CBAC Cyf.

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 2** | **3-4 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **3-4 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-2 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-2 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |



© WJEC CBAC Cyf.